Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2019 Rhif 1042 (Cy. 184)

# PYSGODFEYDD MÔR, CYMRU

## CADWRAETH PYSGOD MÔR

# Gorchymyn Pysgota am Gregyn Moch (Cymru) 2019

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn gwneud darpariaeth ynghylch pysgota, glanio a chludo cregyn moch gan gychod pysgota Prydeinig yng Nghymru ac ym mharth Cymru.

Mae erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn yn gwahardd pysgota am gregyn moch sy'n llai na'r maint lleiaf penodedig yng Nghymru ac ym mharth Cymru.

Mae erthygl 4 yn rhagnodi'r maint lleiaf penodedig ar gyfer glanio cregyn moch yng Nghymru.

Mae erthygl 5 yn rhagnodi'r maint lleiaf penodedig ar gyfer cludo cregyn moch yng Nghymru neu ym mharth Cymru.

Y maint lleiaf penodedig at ddibenion erthyglau 3, 4 a 5 yw 55 o filimetrau cyn 4 Gorffennaf 2020 a 65 o filimetrau ar 4 Gorffennaf 2020 ac ar ôl hynny.

Mae erthygl 6 yn rhagnodi'r dull ar gyfer pennu maint cragen foch at ddibenion y Gorchymyn hwn.

Mae erthygl 7 yn dirymu Is-ddeddf 11 (Cregyn Moch – Maint Lleiaf) Pwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru gynt ac yn diwygio Is-ddeddf 19 (Meintiau Pysgod Penodedig) Pwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru gynt.

Diddymwyd Pwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru a Phwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru, o ran Cymru, ar 1 Ebrill 2010 pan ddiddymwyd Deddf Rheoleiddio Pysgodfeydd Môr 1966 (p. 38) gan adran 187 o

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (p. 23). Ers 1 Ebrill 2010, mae'r Is-ddeddfau a nodir uchod wedi cael effaith fel pe baent wedi eu gwneud gan Weinidogion Cymru mewn offeryn statudol yn rhinwedd paragraffau (1) a (3) o erthygl 13 o Orchymyn Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (Cychwyn Rhif 1, Darpariaethau Canlyniadol, Trosiannol ac Arbed) (Cymru a Lloegr) 2010 (O.S. 2010/630 (C. 42)) ac Atodlenni 3 a 4 iddo. Mae erthygl 7(3) yn gwneud diwygiad canlyniadol i Orchymyn 2010.

Hysbyswyd y Comisiwn Ewropeaidd am ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn ar ffurf ddrafft yn unol â gofynion Erthygl 46 o Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 850/98 dyddiedig 30 Mawrth 1998 ar gyfer gwarchod adnoddau pysgodfeydd drwy fesurau technegol er mwyn diogelu pysgod ifanc organebau môr (OJ Rhif L 125, 24.04.98, t. 1).

Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi ei gynnal mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn ac mae ar gael i edrych arno yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2019 Rhif 1042 (Cy. 184)

# PYSGODFEYDD MÔR, CYMRU

## CADWRAETH PYSGOD MÔR

# Gorchymyn Pysgota am Gregyn Moch (Cymru) 2019

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *24 Mehefin 2019* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *25 Mehefin 2019* |
| *Yn dod i rym* | *4 Gorffennaf 2019* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 1(1), 1(3), 1(4), 1(6), 5(1) a 5(2) o Ddeddf Pysgod Môr (Cadwraeth) 1967(**1**), sydd bellach wedi eu breinio ynddynt hwy(**2**).

(**1**) 1967 p. 84, ("Deddf 1967"). Amnewidiwyd adran 1 o Ddeddf 1967 gan adran 19(1) o Ddeddf Pysgodfeydd 1981 (p. 29). Diwygiwyd adran 1(1) o Ddeddf 1967 gan adran 194(1) a (2) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (p. 23) ("Deddf 2009") ac erthygl 4 o O.S. 1999/1820 a pharagraffau 43(1) a (2)(a) o Ran I o Atodlen 2 iddo. Amnewidiwyd adran 1(3) o Ddeddf 1967 gan adran 194(1) a (4) o Ddeddf 2009. Diwygiwyd adran 1(4) o Ddeddf 1967 gan adran 201 o Ddeddf 2009 a pharagraff 1(1), (2)(a) a (b) o Atodlen 15 iddi. Gweler adran 1(9) am ddiffiniad o "appropriate national authority". Mewnosodwyd adran 1(9) gan adran 194(1) a (5) o Ddeddf 2009 ac fe'i diwygiwyd gan erthygl 4(2) a (3) o O.S. 2010/760. Amnewidiwyd adran 5(1) gan adran 198(1) a (2) o Ddeddf 2009. Diwygiwyd adran 5(2) gan adran 201 o Ddeddf 2009 a pharagraff 3(1) a (2) o Atodlen 15 iddi. Gweler adran 5(9) am ddiffiniad o "the appropriate national authority". Mewnosodwyd adran 5(9) gan adran 198(3) o Ddeddf 2009 ac fe'i diwygiwyd gan erthygl 4(2) a (4) o O.S. 2010/760. Diwygiwyd adran 22(2) o Ddeddf 1967, sy'n cynnwys diffiniad o "the Ministers", gan adran 19(2)(d) a (3) ac adrannau 45 a 46 o Ddeddf Pysgodfeydd 1981 (p. 29), a Rhan II o Atodlen 5 iddi ac erthygl 4 o O.S. 1999/1820, a pharagraff 43(1) a (12) o Ran I, a Rhan IV, o Atodlen 2 iddo.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Gweinidogion o dan adrannau 1(1), 1(3), 1(4), 1(6), 5(1) a 5(2), i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru (fel y'i cyfansoddir o dan Ddeddf

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Pysgota am Gregyn Moch (Cymru) 2019 a daw i rym ar 4 Gorffennaf 2019.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Mae erthyglau 3 a 5 yn gymwys o ran parth Cymru.

**Dehongli**

**2.** Yn y Gorchymyn hwn, oni fydd y cyd-destun yn mynnu fel arall—

ystyr "cragen foch" ("*whelk*") yw pysgodyn cragen o'r rhywogaeth *Buccinum undatum;*

ystyr "cwch pysgota Prydeinig" ("*British fishing boat*") yw cwch pysgota sydd naill ai wedi ei gofrestru yn y Deyrnas Unedig o dan Ran II o Ddeddf Llongau Masnach 1995(**1**) neu sy'n eiddo'n gyfan gwbl i bersonau sy'n gymwys i fod yn berchen ar longau Prydeinig at ddibenion y rhan honno o'r Ddeddf;

mae i "Cymru" yr ystyr a roddir i "Wales" yn adran 158 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(**2**);

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Pysgod Môr (Cadwraeth) 1967(**3**);

ystyr "maint lleiaf penodedig" ("*specified minimum size*") yw—

(i) 55 o filimetrau cyn 4 Gorffennaf 2020; a

(ii) 65 o filimetrau ar 4 Gorffennaf 2020 ac ar ôl hynny; ac

---

Llywodraeth Cymru 1998 (p. 38)): gweler erthygl 2(a) o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo. Trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny wedi hynny i Weinidogion Cymru gan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi. I'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran parth Cymru, trosglwyddwyd swyddogaethau'r Gweinidogion o dan adrannau 1(3), 1(4), 1(6), 5(1) a 5(2) o Ddeddf 1967 i Weinidogion Cymru gan erthygl 4(1)(b) o Orchymyn Parth Cymru (Ffiniau a Throsglwyddo Swyddogaethau) 2010 (O.S. 2010/760).

(**1**) 1995 p. 21.

(**2**) 2006 p. 32; diwygiwyd adran 158(1) gan adran 43(1) a (2) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (p. 23). At ddibenion y diffiniad o "Wales" yn adran 158(1) o Ddeddf 2009, y ffin rhwng y rhannau hynny o'r môr o fewn Aberoedd Hafren a Dyfrdwy sydd i'w trin fel rhai sy'n gyfagos i Gymru a'r rhai nad ydynt i'w trin felly, ym mhob achos, yw llinell a dynnir rhwng y cyfesurynnau a nodir yn Atodlen 3 i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf 2006, a pharagraff 26 o Atodlen 11 iddi, mae O.S. 1999/672 yn parhau i gael effaith.

(**3**) 1967 p. 84.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

mae i "parth Cymru" ("*Welsh zone*") yr ystyr a roddir yn adran 158 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(**1**).

**Gwahardd pysgota am gregyn moch penodedig**

**3.** Mae cychod pysgota Prydeinig wedi eu gwahardd rhag pysgota am gregyn moch sy'n llai na'r maint lleiaf penodedig.

**Gwahardd glanio cregyn moch penodedig**

**4.** At ddibenion adran 1(1) o'r Ddeddf (sy'n gwahardd glanio unrhyw bysgodyn môr o unrhyw ddisgrifiad nad yw'n bodloni'r gofynion o ran maint a ragnodir mewn perthynas â physgod môr o'r disgrifiad hwnnw) rhagnodir mai'r maint lleiaf ar gyfer cregyn moch yw'r maint lleiaf penodedig.

**Gwahardd cludo cregyn moch penodedig**

**5.** At ddibenion adran 1(3) o'r Ddeddf (sy'n gwahardd cludo ar gychod pysgota penodedig unrhyw bysgodyn môr o unrhyw ddisgrifiad nad yw'n bodloni'r gofynion o ran maint a ragnodir mewn perthynas â physgod môr o'r disgrifiad hwnnw), mae cychod pysgota Prydeinig wedi eu gwahardd rhag cludo unrhyw gregyn moch sy'n llai na'r maint lleiaf penodedig.

**Mesur cregyn moch**

**6.** At ddibenion erthyglau 3, 4 a 5, mae maint cragen foch i'w fesur yn unol â pharagraff 7 o Atodiad XIII i Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 850/98 ar gyfer gwarchod a rheoli adnoddau pysgodfeydd drwy fesurau technegol er mwyn diogelu pysgod ifanc organebau môr(**2**).

**Dirymu a Diwygio**

**7.**—(1) Mae Is-ddeddf 11 (Cregyn Moch – Maint Lleiaf)(**3**) Pwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru gynt(**4**) wedi ei dirymu.

---

(**1**) Pennir parth Cymru yn O.S. 2010/760.
(**2**) OJ Rhif L125, 27.4.1998, t. 30.
(**3**) Mae Is-ddeddf 11 Pwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru gynt yn cael effaith fel pe bai wedi ei gwneud gan Weinidogion Cymru mewn offeryn statudol mewn perthynas â'r un ardal o Gymru â'r ardal yr oedd yr Is-ddeddf honno'n gymwys iddi yn wreiddiol yn rhinwedd erthygl 13(1) o Orchymyn Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (Cychwyn Rhif 1, Darpariaethau Canlyniadol, Trosiannol ac Arbed) (Cymru a Lloegr) 2010 (O.S. 2010/630 (C. 42)) ac Atodlen 3 iddo.
(**4**) Diddymwyd Pwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru ar 1 Ebrill 2010 pan ddaeth erthygl 3 o Orchymyn Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (Cychwyn Rhif 1, Darpariaethau Canlyniadol, Trosiannol ac Arbed) (Cymru a Lloegr) 2010

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(2) Yn Is-ddeddf 19 (Meintiau Pysgod Penodedig)(**1**) Pwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru gynt, yn y Tabl sy'n pennu maint lleiaf pysgod cregyn, dileer y rhes sy'n ymwneud â Chregyn Moch.

(3) Yng Ngorchymyn Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (Cychwyn Rhif 1, Darpariaethau Canlyniadol, Trosiannol ac Arbed) (Cymru a Lloegr) 2010(**2**), yn y Tabl yn Atodlen 3, dileer y rhes sy'n ymwneud ag Is-ddeddf 11.

*Lesley Griffiths*
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru
24 Mehefin 2019

(O.S. 2010/630 (C. 42)) ag adran 187 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (p.23) i rym. Effaith hynny oedd diddymu Deddf Rheoleiddio Pysgodfeydd Môr 1966 (p. 38).

(**1**) Mae Is-ddeddf 19 Pwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru gynt yn cael effaith fel pe bai wedi ei gwneud gan Weinidogion Cymru mewn offeryn statudol mewn perthynas â'r un ardal o Gymru â'r ardal yr oedd yr Is-ddeddf honno'n gymwys iddi yn wreiddiol yn rhinwedd erthygl 13(3) o Orchymyn Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (Cychwyn Rhif 1, Darpariaethau Canlyniadol, Trosiannol ac Arbed) (Cymru a Lloegr) 2010 (O.S. 2010/630 (C. 42)) ac Atodlen 4 iddo.

(**2**) O.S. 2010/630 (C. 42), fel y'i diwygiwyd gan erthygl 7(6)(a) o Orchymyn Cramenogion Penodedig (Gwahardd eu Pysgota, eu Glanio, eu Gwerthu a'u Cludo) (Cymru) 2015 (O.S. 2015/2076 (Cy. 312)).